

Darlledu yn y Gymraeg:

Gweledigaeth newydd er mwyn achub ein hunig sianel deledu Gymraeg

Papur ymgynghorol ar y cyd rhwng BECTU, NUJ, Undeb yr Ysgrifennwyr,
Equity, Undeb y Cerddorion, a Chymdeithas yr Iaith Gymraeg.

Cyflwyniad

Mae dyfodol ein hunig sianel deledu Gymraeg yn y fantol.

Mae S4C yn wynebu toriadau i'w chyllid o dros 40% mewn termau real. Mae Llywodraeth San Steffan cynnig bod y BBC yn traflynco S4C ac maent yn bwriadu newid y gyfraith er mwyn rhoi'r grymoedd i weinidogion gael gwared â'r sianel yn llwyr.

Mae'r sefyllfa yn argyfyngus. Mae polisi'r Llywodraeth yn peryglu S4C ac yn taflu amheuaeth dros ddyfodol y sianel wedi 2015.

Yr unig beth sy'n sicr ar hyn o bryd yw'r gostyniad i gyllid S4C dros y 4 mlynedd nesaf. Wedi 2013 fydd y llywodraeth yn arbed 94% o'r arian yr oedden nhw'n arfer gwario ar S4C.

Rydym o'r farn y bydd y toriad i gyllid S4C yn niweidio gallu unig sianel deledu iaith hynaf Ewrop i ddarparu gwasanaeth cyflawn safonol i'w gwylwyr ac yn tanseilio statws y sianel fel begwn ar gyfer darlledu mewn ieithoedd lleiafrifol yn rhwngwladol.

'Na' i doriadau

Ystyriwn y toriadau i S4C fel gwahaniaethu yn erbyn grŵp ieithyddol lleiafrifol gan mai S4C yw'r unig ddarlleddwr cyhoeddus yn y D.U. i dderbyn toriadau o dros 40% mewn termau real.

Bydd y toriadau hyn yn cael effaith negyddol uniongyrchol ar yr iaith Gymraeg. Enghraift brin yw S4C o fuddsoddiad economaidd sydd wedi ei wneud drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Mae hyn wedi hybu'r iaith Gymraeg yng Nghymru ac ar draws y byd.

Credwn y bydd y toriadau'n gyffredinol yn cael effaith ar iechyd yr iaith Gymraeg oherwydd y sgil-effeithiau mewn cymunedau iaith ac ar aelwydydd lle mae sianeli Saesneg eu hiaith hefyd yn cystadlu am sylw teuluoedd a phlant.

‘Ie’ i S4C newydd

Mae'r mudiadau a'r undebau sydd wedi dod at ei gilydd i baratoi'r papur hwn yn cynrychioli miloedd o weithwyr yn y diwydiant teledu a miloedd o garedigion yr iaith. Os yw S4C am adeiladu dyfodol diogel a llwyddiannus i'w hun mae'n angenrheidiol bod y sianel yn cydnabod ewyllys y rhai sy'n gweithio i greu rhaglenni, y gwylwyr a'r rhai sy'n dymuno dyfodol disglaир iddi. Mae'r papur hwn yn mynegi barn y rheiny.

Er mwyn sicrhau'r dyfodol gorau a mwyaf teg i'r sianel Gymraeg ar ei newydd wedd, rydym yn argymhell bod y Llywodraeth yn cyflawni'r canlynol:

- I. Annibyniaeth dros reoli ac annibyniaeth olygyddol lwyd i S4C heb ymyrraeth oddi wrth y BBC na'r Llywodraeth mewn statud.
- II. Fformiwla gyllido annibynnol ar gyfer y sianel Gymraeg, ar sail chwyddiant ac mewn statud.
- III. Ychwanegu at yr adnoddau sydd ar gael i'r sianel drwy godi ardoll ar ddarlleddwyr preifat yn dilyn esiampl gwledydd eraill.
- IV. Sicrhau rôl i Lywodraeth Cymru yn y sianel fel bod modd manteisio ar synergedd buddsoddiad presennol y llywodraeth datganoledig mewn cyfryngau, megis Golwg360, adnoddau addysgol a radio lleol i'r eithaf. Gresynwn y dirwyiad difrifol yn allbwn Cymraeg ar radio masnachol a credwn ymhellach bod modd i S4C gynnig rhagor o wasanaethau cymunedol aml-gyfrwng, ar yr amod bod arian ychwanegol ar gael i'r sianel.

Croesawn y ffaith fod nifer o raglenni S4C yn derbyn mwy o wylwyr, fel canran o'r gynulleidfa sydd ar gael iddi, na rhaglenni BBC One. Ond er mwyn i'r sianel perfformio yn well, teimlwn yn gryf bod rhaid i S4C ddarlledu rhaglenni o safon. Rydym yn credu mai buddsoddi adnoddau prin mewn llai o raglenni o safon yw'r cam cyntaf mae'r sianel angen ei gymryd os yw'r gwasanaeth am gadw gwylwyr a denu gwylwyr newydd.

Y gwir amdani yw bod neb am wyllo rhaglenni gwael ac mae gan S4C gyfle yn nawr i sefydlu ei hun unwaith yn rhagor fel gwasanaeth safonol, perthnasol a rhagorol.

Rydym yn galw am S4C newydd yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- I. **SICRWYDD ARIANNOL** - Ni ellir rhedeg sianel deledu heb sicrwydd ynglŷn â chyllid digonol. Mae'r cytundeb arfaethedig presennol yn sicrhau arian pendant i S4C drwy'r BBC a'r Llywodraeth hyd at 2015 yn unig. Credwn fod angen fformiwl ariannol i S4C fydd yn rhoi sefydlogrwydd hir dymor er mwyn iddi wneud ei gwaith yn hyderus.
- II. **ANNIBYNIAETH** - Mae annibyniaeth gwasanaethau cyfryngau cyhoeddus Cymraeg yn hanfodol er mwyn sicrhau plwraliaeth gyfryngol a democrataidd. Rhaid i Awdurdod S4C ac S4C fod yn annibynnol o'r BBC ac eraill yn olygyddol, yn strategaethol ac yn chreadigol. Mae annibyniaeth ariannol yn hanfodol.
- III. **CRAFFU** - Yng nghydestun yr argyfwng presenol, mae'n glir fod y cyfundrefn craffu S4C presennol - a'r cyfryngau Cymreig yn gyffredinol - wedi ei brofi yn hollol aneffeithiol. Ers sefydlwyd S4C mae Cymru wedi gweld datganoli sylweddol o bwerau gwleidyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Rydym yn teimlo y dylai ail-werthusiad o gyfundrefn craffu S4C ystyried y tirlun gwleidyddol datganoledig newydd.
- IV. **RHEOLEIDDIO** - Mae drefnau llywodraethol presenol S4C wedi dangos eu bod nhw'n annigonol ar gyfer y dasg. Ar hyn o bryd, mae awdurdodau darlledu wedi bod bron yn hollol ddibynol am wybodaeth ar y rheolwyr sydd angen arnynt eu rheoleiddio. Yn S4C a'r BBC, mae angen arnynt gyrrf llywodraethol sydd yn agored i dderbyn dystiolaeth a barnau o gymdeithas sifig ehangach er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gywir ar gael iddynt ar gyfer penderfyniadau hollbwysig.
- V. **SAFON** - Mae cyfryngau Cymraeg sydd o safon gyfatebol i'r cyfryngau a geir yn yr iaith Saesneg yn hanfodol i barhad yr iaith Gymraeg.
- VI. **DIGIDOL** - Mae creu ecosystem gyfryngol amrywiol yn hanfodol i ddyfodol y Gymraeg. Mae buddsoddiad sylweddol mewn cyfryngau digidol yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn briod iaith pob cyfrwng. Byddai angen newid cylch gwaith cyfreithiol S4C ac adnoddau ychwanegol er mwyn sicrhau hynny.

VII.SIANEL DROS GYMRU GYFAN - Credwn y dylid lledu buddiannau'r sianel o gwmpas Cymru yn well fel bod cymunedau Cymraeg yn elwa yn llawn o'r buddsoddiad yn y cyfryngau Cymraeg.

VIII.CREADIGRwydd - Credwn yn gryf fod angen rhoi pwyslais ar greadigrwydd unwaith yn rhagor. Mae angen i S4C ddechrau siarad yn uniongyrchol gydag awduron, cynhyrchwyr bychain a phobl greadigol unwaith eto. Mae polisi'r sianel o beidio â chyflogi comisiynwyr arbenigol ym meysydd megis drama wedi bod yn annoeth. Mae angen i'r sianel fod yn gyfrifol am arwain trafodaeth ymyst y gymuned greadigol sy'n medru'r Gymraeg yn hytrach na dibynnu ar nifer bychain o fusnesau preifat i wneud y gwaith hwn drosti hi. Mae'r cwmnïau mawr annibynnol yn methu - ar y cyfan - gyda'r waith pwysig hwn ar hyn o bryd.

IX.ADOLYGIAD LLWYR O'R STRWYTHUR - Rydym yn gryf o'r farn fod angen adolygiad llwyr o strwythur comisiynu, strategaeth a rôl Awdurdod S4C, gan gynnwys modelau amgen ar gyfer Awdurdod S4C a gweinyddu gwariant ar gyfryngau Cymraeg. Cydnabyddwn fod diffyg atebolrwydd wedi bod rhwng S4C â'i chynulleidfa yn y blynnyddoedd diwethaf ond nid drwy bartneriaethu â'r BBC y mae ymdrin â hynny.

Mae'r syniadau uchod yn amlinellu model amgen, cynaliadwy i S4C a gallai ddechrau cyfnod creadigol newydd i'r cyfryngau Cymraeg. Fodd bynnag, ni all hynny ddigwydd oni gwelir asio ewyllys da pobl Cymru tuag at ein hiaith unigryw gydag ewyllys da ein gwleidyddion.

Galw ar lywodraeth Cymru i gynnal arolygiad cyhoeddus

Mae'r llywodraeth Brydeinig wedi gwrthod cynnal arolygiad cyhoeddus ar S4C er bod y prif bleidiau Cymreig i gyd wedi ymbil arni i'w wneud.

Rydym felly yn nawr yn galw ar lywodraeth Cymru i arwain y ffordd a threfnu adolygiad ei hun er mwyn i ni drafod dyfodol y sianel a sgil-effeithiau'r newidiadau sydd ger bron San Steffan ar yr iaith Gymraeg, ein cymdeithas a'n diwylliant ni.

Mae presenoldeb y Gymraeg yn y cyfryngau modern yn hanfodol i lwyddiant a dyfodol yr iaith. Byddwn felly, fel mudiadau, yn parhau i redeg ymgyrch cryf ar y cyd er mwyn atal cynlluniau Llywodraeth y DG, sydd yn peryglu dyfodol unig sianel teledu Cymraeg y byd, rhag digwydd.

Welsh language broadcasting:

A new vision to protect our only Welsh language television service

A consultation paper drafted by BECTU, NUJ, The Writers' Guild of Great Britain, Equity, The Musicians' Union, and the Welsh Language Society.

Introduction

The future of our only Welsh language television channel is at risk.

S4C faces a cut of 40% in real terms to its budget. The Westminster government wants the BBC to take S4C under its wing and is planning to give ministers the powers to shut down channel.

The situation is desperate. The government's policy makes no provision for S4C beyond 2015.

The only certainty is that S4C's budget will be cut over the next 4 years. From 2013 the government will reduce the amount it spends on Welsh language broadcasting by 94%.

We believe such a move will fundamentally damage S4C's ability to provide a substantial high quality service for its viewers and that it will destroy the ability of Europe's oldest surviving language to be a beacon for minority language broadcasting across the world.

'No' to cuts

We believe the cut to S4C's funding discriminates against speakers of a minority language as S4C is the only public service broadcaster in the UK facing a cut of 40% in real terms to its income.

The cuts will negatively and directly impact upon the health of the Welsh language. S4C is a rare example of economic investment made through a body with linguistic and cultural responsibilities. It has promoted the Welsh language across Wales and the rest of the world.

We believe the cut to S4C's budget will damage the Welsh language's resurgence because of the impact the reduction in spending will have in communities where Welsh is spoken and in homes where English language television services compete for the attention of Welsh speaking families and children learning Welsh.

‘Yes’ to a new S4C

The bodies and unions that have come together to prepare this paper represent thousands of people who work in the television industry and thousands of people who care about the state of the Welsh language. If S4C is to enjoy a secure and successful future it is essential S4C acknowledges the will of those who make its programmes, its viewers and those who wish to see the channel succeed. This paper is a reflection of the views held by those people.

To ensure the best possible future, and the fairest future, for the Welsh language channel in its new form, it’s vital that the Government delivers the following:

- I. Complete management and editorial independence for S4C without any interference by the BBC or the Government enshrined in statute.
- II. An independent funding formula for the Welsh language channel based on inflation and enshrined in statute.
- III. Add to the resources available to the channel by raising a levy on private broadcasters drawing on best practice in other countries
- IV. S4C and the Welsh Government to ensure where possible synergies in their investment in the media such as the Welsh Government's investment in Golwg 360, education resources, and local radio. We are disappointed about the amount and quality of Welsh language output from commercial radio stations and believe there's a role for S4C to play in providing multi-media community services, on the condition that there was additional funding to do so.

We welcome the fact S4C attracts more viewers than BBC One in terms of the percentage of available audience. We feel strongly however that if S4C is to improve its audience share it must invest in high quality programming. S4C would be taking the first step in ensuring it retained viewers and attracted new ones if it concentrated its limited resources on high quality work.

The truth is that nobody wants to watch bad television and S4C now has an opportunity to establish itself once again as a broadcaster of good quality, relevant and excellent programming.

We call for a new S4C based on the following principles:

- I. FINANCIAL SECURITY – A successful television channel cannot be run without financial security and an adequate budget. Current proposals commit the BBC and the government to funding S4C until 2015 only. The channel needs a funding formula that provides long-term security in order for it to operate confidently.
- II. INDEPENDENCE – The independence of a Welsh public service broadcaster is essential in order to ensure democratic media plurality. The S4C Authority and S4C should be independent of the BBC in editorial, strategic and creative contexts. It is also essential that it has independent control over its finances.
- III. SCRUTINY – In light of the current crisis it is clear that the current system of scrutiny of S4C - and the Welsh media in general – has proven woefully ineffective. Since the creation of S4C, Wales has seen major devolution of political powers to the National Assembly for Wales. We feel that a re-evaluation of S4C's system of scrutiny should take account of the new devolved political landscape.
- IV. MANAGEMENT – S4C's management systems have proven ineffective and ineffectual. Decisions and policy seem to be decided by a small number of people at the centre of the operation. Both S4C and the BBC require governing bodies that consult widely amongst civic society to ensure they're making proper choices on important decisions.
- V. QUALITY – It is essential that Welsh language media is of a comparative quality to English language media if the output is to be appreciated and the Welsh language is to flourish.
- VI. DIGITAL – Creating a multi-media ecosystem is essential to the survival of the Welsh language. Large investment in new media is needed to provide Welsh language services and content in order to ensure Welsh is a language that exists in all media. S4C's remit would need to be adapted and additional funding provided to ensure the development of new media enterprises.
- VII. A NATIONAL CHANNEL – We believe S4C should invest its resources across Wales and especially in the Welsh speaking heartlands where the economic benefits would best support the language's survival.

VIII.CREATIVITY – We strongly believe S4C should put an emphasis on creativity. S4C needs to start communicating directly with writers, independent producers and other creative people again. The channel's policy of not employing specialist commissioners in areas such as drama has been misguided. The channel needs to be directly responsible for initiating dialogue with Welsh speaking creative individuals rather than relying on a small number of large private television companies to do this work on its behalf. The large independent production companies are failing - on the whole - to do this vital work at present.

IX. FULL REVIEW OF STRUCTURE – We firmly believe there needs to be a full review of the commissioning process, strategy, and the role of the S4C Authority, including alternative models for the Authority and the administration of funds on Welsh language media. We believe there's a problem of accountability of S4C to its audience in recent years that won't be solved by a forced marriage with the BBC.

These ideas outline an alternative and sustainable model for S4C that could launch a new creative age for Welsh language media. However, this cannot be achieved without the goodwill of the Welsh people and the support of Welsh politicians.

Call for the Welsh Government to hold a public review

The UK Government has refused to hold a public review of its decisions regarding S4C despite calls from all four political parties in Wales to do so.

We therefore call upon the Welsh Government to lead the way and hold its own public review into the future of Welsh language broadcasting and the impact the UK Government's proposals regarding S4C will have upon the Welsh language, our society and our culture.

If the Welsh language is to have a healthy and successful future the language needs to have a strong presence in all media. We therefore intend – as a collective of national organisations –to continue our campaign to resist the UK Government's plans which in our view threaten the future of the world's only Welsh language television channel.